# Adroddiad Gan Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol Ac Adfywio

## Trosglwyddo Swyddogaethau (CAfCASS) Yng Nghymru I Gynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Rheoliadau uchod yn ystod ei gyfarfod ar 23 Chwefror 2005. Cyfeiriwyd yr eitem hon at y Pwyllgor yn sgil ychwanegu'r cyfrifoldeb at bortffolio'r Gweinidog o ganlyniad i newidiadau diweddar yn y Cabinet.

2. O dan y Rheoliadau hyn, bydd modd trosglwyddo swyddogaethau'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Ebrill 2005.

3. Ni chafwyd unrhyw gynigion i newid y rheoliadau ond cododd yr Aelodau y materion isod:

### Goblygiadau o ran staffio ac adnoddau yn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Ymateb: Dywedodd y Gweinidog ei bod wrthi'n trafod y goblygiadau.

### A fyddai'r trefniadau arolygu cyfredol yn dal i fod ar waith?

Ymateb: Dywedodd y Gweinidog y byddai'r trefniadau arolygu cyfredol a nodwyd yn Neddf Plant 2004 yn dal i fod ar waith, hy: Arolygiaeth Gwasanaeth Llysoedd Ynadon ei Mawrhydi, sy'n swyddfa statudol annibynnol o dan yr Adran Materion Cyfansoddiadol.

### Roedd yr Aelodau am wybod lleoliad swyddfeydd CAFCASS ar draws Cymru.

Ymateb: Ar hyn o bryd, mae swyddfeydd gan CAFCASS Cymru yng Nghyffordd Llandudno, Wrecsam, y Drenewydd, Aberystwyth, Tredegar, Casnewydd, Caerdydd, Hwlffordd, Caerfyrddin, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Phontypridd. Addawodd y Gweinidog y byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor maes o law am leoliad swyddfeydd yn y dyfodol.

### Awgrymwyd bod yn rhaid cydgysylltu'r cyfrifoldeb dros y gwasanaeth hwn.

Ymateb: Roedd y Gweinidog yn barod i dderbyn y pwynt hwn ac ychwanegodd ei bod yn bwysig bod Is-

bwyllgor y Cabinet ar Blant yn dod â'r holl faterion perthnasol ynghyd, er ei bod yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb fel Gweinidog dros y gwasanaeth.

4. Croesawodd yr Aelodau awgrym y Gweinidog y dylid gwahodd CAFCASS i un o gyfarfodydd y Pwyllgor ddechrau tymor yr haf i egluro'r ffordd y mae'n bwriadu rhoi ei egwyddorion craidd yng Nghymru ar waith. Nodwyd y byddai ei hawgrym i sefydlu canolfannau teulu ar gyfer cyfarfodydd cyswllt yn hynod fanteisiol.

**Janice Gregory AC**

**Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**